## Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## Adroddiad (SLC(3) 18-09)

**Dyddiad:** **6 Gorffennaf 2009**
**Amser:** **16.15**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd**

## CYNNWYS

Cyfarfu'r Pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2009. Roedd Aelodau canlynol y Pwyllgor yn bresennol yn y cyfarfod: Janet Ryder AC, Alun Davies AC, Mike German AC, David Melding AC, Joyce Watson AC. Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.

Mae adroddiadau'r Pwyllgor i'r Cynulliad fel a ganlyn:

### Offerynnau na fydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

#### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC306 - Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 25 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 26 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 17 Gorffennaf 2009

### Offerynnau y bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig iddynt o dan Reol Sefydlog 15.2

#### Offerynnau sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad gan y Cynulliad (y weithdrefn negyddol)

**SLC304 - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009**

Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 23 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 24 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 16 Gorffennaf 2009

Penderfynodd y Pwyllgor y byddai'n ystyried **SLC304 - Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009** yn ei gyfarfod nesaf gan nad oedd y Llywodraeth wedi gorffen ystyried ei hymateb i'r pwyntiau a godwyd gan Gynghorwyr Cyfreithiol y Pwyllgor o ran y Rheoliadau hyn.

**SLC305 - Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 24 Mehefin 2009. Fe'u gosodwyd ar 25 Mehefin 2009. Yn dod i rym ar 28 Medi 2009.

Ceir Adroddiad y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 15.2 ar yr offerynnau statudol sy'n agored i gael eu dirymu yn unol â phenderfyniad y Cynulliad (y weithdrefn negyddol) yn Atodiad 1 yr Adroddiad hwn.

**Busnes arall**

**Detholiad o Gofnod y Trafodion ar 30 Mehefin 2009 - Dadl Cyfnod 1 ar Egwyddorion Cyffredinol y Mesur Arfaethedig ynghylch Plant a Theuluoedd (Cymru) (Dadl ynghylch Adran 60 – y dewis o weithdrefn)**
Gwnaeth adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ar y Mesur arfaethedig bedwar argymhelliad, gan gynnwys yr argymhelliad y dylai'r rheoliadau a wneir o dan adran 60 fod yn amodol ar weithdrefn gadarnhaol. Yn ystod Dadl Cyfnod 1 y Cyfarfod Llawn ar 30 Mehefin 2009, ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig, dywedodd y Gweinidog, o ystyried natur fanwl Rheoliadau o dan adran 60, eu bod yn fwy priodol i'r weithdrefn negyddol. Barn yr Aelodau oedd mai diben y rheoliadau ac nid eu natur fanwl ddylai benderfynu ar y dewis o weithdrefn.

**Confensiwn Sewell**
Trafododd y Pwyllgor y cyngor cyfreithiol ar Gonfensiwn Sewell. Cytunodd yr Aelodau i ddychwelyd at y mater ar ôl i'r Pwyllgor Busnes gwblhau ei ystyriaeth o'r gorchmynion cydsyniad deddfwriaethol.

**Y Mesur Cydraddoldeb (Mesur Seneddol)**

Fel rhan o'r gwaith craffu ar y Mesur Cydraddoldeb a gynhaliwyd o dan Reol Sefydlog 15.6 (ii) (gall y Pwyllgor ystyried "pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru"), clywodd yr Aelodau dystiolaeth gan Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol. Cytunodd y Gweinidog i ddarparu rhagor o wybodaeth.

Cytunodd y Pwyllgor i ystyried adroddiad drafft mewn perthynas â'r Mesur.

Yn unol â Rheol Sefydlog 10.37(vi) penderfynodd y Pwyllgor wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod er mwyn ystyried y dystiolaeth ac argymhellion cychwynnol ar gyfer adroddiad y Pwyllgor ar y Mesur Cydraddoldeb.

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**6 Gorffennaf 2009**

# Atodiad 1

# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-18-09)**

**SLC305**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**Teitl: Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno, yng Nghymru, trefniadau codi ffioedd sy'n seiliedig ar amser ar gyfer hylendid cig a lles anifeiliaid o ran rheolaethau swyddogol ar ladd anifeiliaid, a hynny mewn safleoedd cig cymeradwy. Disodlir Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2008.

**O dan Reol Sefydlog 15.2, gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r offeryn hwn am y rhesymau a ganlyn**:

- Mae'r rhaglith i'r Rheoliadau yn datgan ei bod yn hwylus i'r Rheoliadau gynnwys cyfeiriad newidiadwy* at yr offerynnau Cymunedol y cyfeirir atynt yn Atodlen 1 i'r Rheoliadau. Mae'r paragraff perthnasol yn datgan ei bod yn "ymddangos i'r Ysgrifennydd Gwladol" ei bod yn hwylus i wneud cyfeiriad o'r fath. Dylai'r cyfeiriad at yr Ysgrifennydd Gwladol gyfeirio at Weinidogion Cymru. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) – gwaith drafftio diffygiol]
- Yn nhestun Cymraeg y diffiniadau o'r amrywiol offerynnau Cymunedol a geir yn rheoliad 2(1), mae'r geiriau sy'n cyfateb i "have the meanings" yn y testun Saesneg wedi'u hepgor. [Rheol Sefydlog 15.2(vi) – gwaith drafftio diffygiol]
- Mae Rheoliad 5(2) yn darparu bod rhaid danfon unrhyw hawliad am wybodaeth neu dystiolaeth a wneir gan Asiantaeth yr Amgylchedd at y gweithredydd. Yn achos gweithredydd sy'n gorff corfforaethol, mae'r testun Saesneg yn nodi y dylid danfon yr hawliad at "the operator's secretary at the operator's registered or principal office". Mae'r testun Cymraeg yn cyfeirio at "ysgrifennydd neu ysgrifenyddes". Tybir bod "secretary" yn golygu person y mae gofyniad arno o dan gyfraith cwmnïau i ddal swydd Ysgrifennydd y Cwmni, ac nid person a gyflogir fel ysgrifennydd personol neu gynorthwyydd personol a, gan hynny, tybir y byddai defnyddio'r gair "Secretary" yn y testun Saesneg yn mynegi hyn yn gliriach. O dan yr amgylchiadau hyn, tybir bod defnyddio'r gair "Ysgrifennydd" yn unig yn dderbyniol yn y testun Cymraeg. [Rheol Sefydlog 15.2(v) - angen eglurhad pellach ynglŷn â'r ystyr]

* Mae “cyfeiriad newidiadwy” yn golygu y gellir darllen unrhyw gyfeiriad at offerynnau Cymunedol yn yr offeryn fel cyfeiriad at offerynnau Cymunedol fel y’u diwygir o bryd i’w gilydd. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid diwygio rheoliadau a gorchmynion bob tro y diwygir yr offeryn Cymunedol perthnasol. Caniateir yr arfer hwn o dan adran 1A o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 (fel y’i mewnosodwyd gan adran 16 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006).

**Janet Ryder AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**6 Gorffennaf 2009**

**Ymatebodd y Llywodraeth fel a ganlyn:-**

**Rheoliadau Cig (Ffioedd Rheolaethau Swyddogol) (Cymru) 2009**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn nodi’r pwyntiau a godir yn yr adroddiad a bydd yn gwneud y newidiadau angenrheidiol dros yr Haf.